Design: Eye Imagery TPNW Review DATE: October 31, 2011 12:59 PM

partneriaeth twristiaeth gogledd cymru
adolygiad blynyddol 2010-11
crynodeb gweithredol



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

TOURISM PARTNERSHIP North Wales
PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

beth i'w wneud

short breaks
www.breaksnorthwales.co.uk

adventure
www.walkingnorthwales.co.uk

golf
www.golf-northwales.co.uk

walking
www.walkingnorthwales.co.uk

moviemap
www.moviemapnorthwales.co.uk

events
www.eventsnorthwales.co.uk

gardens
www.gardensnorthwales.co.uk

attractions
www.attractionsnorthwales.co.uk

walled towns
www.walledtowns.co.uk

giants
www.giantsnorthwales.co.uk

groups
www.walkingnorthwales.co.uk

partneriaeth twristiaeth gogledd cymru
01745 589020
www.tpnw.org

rhagair

Llun: Eye Imagery

Datblygu a phwysleisio ein rhinweddau fel un o'r cyrchfannau gorau yn y byd i ymwelwyr yw ein blaenoriaeth.

Mae yna lawer yn y fantol gan fod twristiaeth yn elfen mor hanfodol a chynyddol bwysig o economi Gogledd Cymru.

Mae'n denu £2.1 biliwn o incwm i'r rhanbarth bob blwyddyn, yn cefnogi mwy na 38,000 o swyddi ac yn anadl einioes i lawer o fusnesau bach.

Credwn y gall wneud cyfraniad mwy fyth yn y dyfodol a'i fod yn sector cynaliadwy a fydd yn parhau i ffynnu am genedlaethau i ddod, o'i reoli'n iawn.

Diolch i ymroddiad ein staff a chefnogaeth ein Bwrdd, mae Gogledd Cymru yn dal i gystadlu gyda'r goreuon er mwyn denu ymwelwyr i'r rhanbarth.

Ond rydym yn gweithredu mewn amgylchedd hynod o gystadleuol felly mae ein strategaeth pum mlynedd, Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2010-2015, yn cynnwys nodau uchelgeisiol dros ben.

Y pwysicaf o'r rhain yw ein hawydd i gael ein cydnabod fel cyrchfan sy'n un o'r Pump Uchaf yn y DU, a chael ein hadnabod drwy'r byd am ein harddwch naturiol, ein golygfeydd trawiadol, ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw.

Rydym eisiau cael ein hadnabod fel canolfan ragoriaeth i chwaraeon antur ac arweinydd y farchnad i dwristiaeth gweithgareddau o bob math.

Mae parhad y sefyllfa economaidd anodd yn fendith ac yn felltith i Ogledd Cymru.

Mae mwy o bobl yn dewis mynd ar wyliau yn y DU. Ar stepen ein drws, mae gennym 17 miliwn o bobl yn byw yn ninasoedd a threfi mawrion Gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr, sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y ffasiwn o gymryd 'gwyliau adref'.

Er mwyn llwyddo, rhaid i ni sicrhau bod ansawdd ein hatyniadau, ein llety a'r gwasanaeth a ddarparwn yn cyfateb i odidowgrwydd ein harddwch naturiol digymar a chyfoeth ein treftadaeth a'n diwylliant.

Rydym yn defnyddio mwy a mwy ar dechnoleg newydd er mwyn gallu cyfathrebu'n fwy uniongyrchol ac yn fwy effeithiol yn ein hymgyrchoedd marchnata a gwneud i'n darpar gynulleidfa wybod am yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

O ran ansawdd y cynnyrch, mae disgwyliadau pobl o ran ansawdd yn cynyddu drwy'r amser, yn briodol ddigon, a rhaid i ni barhau i ymateb i'r her trwy ymdrechu'n barhaus i wella'r hyn a wnawn a'r ffordd rydym yn ei wneud.

Rhaid i ni sicrhau, bob amser, fod ein hymdrechion o fudd i gymunedau Gogledd Cymru, a hynny mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy.

Gweithio mewn partneriaeth yw'r allwedd i ffyniant yn y dyfodol. Mae angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat weithio'n agosach fyth yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o gyllidebau is.

Mae'n hanfodol fod y fasnach a chyrff cyhoeddus yn cydweithio'n llwyr er mwyn sicrhau budd i'r naill ochr a'r llall, gan weithio i agenda gyffredin.

Os ydym ni'n ddoeth ac yn meddwl mewn ffordd gydlynol, bydd ein synergedd yn creu cynnyrch yng Ngogledd Cymru sy'n fwy na'r holl rannau unigol sy'n ei ffurfio.

Manteisio ar yr hyn sy'n gwneud yr ardal hon yn arbennig yw'r allwedd i'r dyfodol - mae Gogledd Cymru'n lle eithaf anghyffredin ac mae angen i ni fanteisio ar ein hapêl rymus a pharhaus fel ein bod yn cymryd ein lle haeddiannol ymysg y Pump Uchaf.

Neil Rowlands
Cadeirydd

Dewi Davies
Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol

Tudalen Flaen: Tree Top Adventure ger Betws-y-coed
Uwchben: Golygfa o Ddyffryn Ogwen yn Eryri

crynodeb gweithredol

Er bod yr esgid fach yn gwasgu mae twristiaeth yn dal i gynnig llygedyn o obaith i'r economi.

Mae'r economi ymwelwyr yn chwarae rhan bwysig wrth adfywio'r rhanbarth a'n tywys allan o'r dirwasgiad.

Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi buddsoddi £250,000 mewn ymgyrch i hyrwyddo twristiaeth trwy ein rhwydwaith presennol o bum ardal farchnata.

Rydym wedi parhau i symud draw o daflenni wedi'u hargraffu yn y ffordd draddodiadol tuag at hyrwyddo'r ardal trwy gysylltiadau cyhoeddus a thargedu marchnadoedd arbenigol fel trefnwyr teithiau grŵp.

Rydym yn gwneud mwy a mwy o farchnata ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol sy'n golygu y gallwn gyrraedd llawer mwy o bobl am lai o arian, sy'n addas iawn yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Unwaith i ni ddenu pobl yma mae'n hollbwysig ein bod yn creu'r argraff iawn oherwydd mae'r argraff gyntaf yn wirioneddol bwysig.

Felly rydym yn rhoi llawer iawn o ymdrech i Reoli Cyrchfannau ar y cyd â'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

Mae Cyrchfan Conwy eisoes wedi cael ei lansio'n llwyddiannus, ac rydym yn gweithio ar gynlluniau tebyg yn y siroedd eraill.

Roedd y diddordeb byd-eang yng Nghwpan Ryder Cymru 2010 yn fantais i ni, gan ei fod yn un o'r digwyddiadau mwyaf yng nghalendr chwaraeon y byd.

Mae clybiau golff o bob cwr o Ogledd Cymru'n manteisio ar wasanaeth archebu ar-lein sy'n denu chwaraewyr o bell ac agos, yn bennaf o Ogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr.

O ganlyniad, gwelwyd cynnydd aruthrol mewn archebion ar-lein sydd wedi cynhyrchu bron i £500,000 mewn ffioedd chwarae yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Wrth wraidd llwyddiant yr ymgyrch mae www.golf-northwales.co.uk sef y wefan a grëwyd ac sy'n cael ei rhedeg gan y cwmni amser tio ar-lein blaenllaw, BRS.

Yn ogystal ag archebu ar-lein, gall cwsmeriaid weld lluniau o'r gwahanol gyrsiau golff yn ogystal â manylion am gynigion arbennig a llety cyfagos.

Mae'r arbenigwr hen bethau o fyd teledu, Adam Partridge, sy'n ymddangos ar y gyfres boblogaidd Flog It! yn gweithio gyda Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ar ymgyrch newydd i ddenu grwpiau, teithiau bws a llongau mordaith i'r rhanbarth.

Mae'n rhoi areithiau ar ôl cinio ac yn mynd ag ymwelwyr ar deithiau o amgylch tai hanesyddol, gan fwrw golwg arbenigol ar yr hen bethau sydd o'i gwmpas.

Rydym eisoes yn elwa o'r ffaith fod Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte wedi derbyn statws Treftadaeth Byd – enghraifft arall o'n gorffennol gwych yn creu ffyniant yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd dau gyfarfod masnach llwyddiannus, y naill yn yr Wyddgrug a'r llall ar Ynys Môn.

Yr Athro John Lennon, cyfarwyddwr a sylfaenydd Canolfan Moffat ar gyfer Datblygu Busnes Teithio a Thwristiaeth, oedd y siaradwr gwadd yn yr Wyddgrug. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol i gwmnïau ddefnyddio a manteisio i'r eithaf ar chwyldro'r rhyngrwyd.

Mae'r ystadegau craidd yn pwysleisio'r potensial oherwydd mae gan Facebook, er enghraifft, 500 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol ac mae 50 miliwn o bobl yn 'trydar' bob dydd.

Yn y cyfamser, roedd yr arbenigwr teithio o fyd y teledu, Simon Calder, yn llygad ei le pan ragwelodd yn y cyfarfod ar Ynys Môn y byddai priodas Frenhinol y Tywysog William a Kate Middleton o fudd i dwristiaeth ar yr ynys yn arbennig, a Gogledd Cymru'n gyffredinol.

Fel yn achos amryw o sefydliadau eraill, rydym yn gweithio gyda chyllideb lai, sydd 10 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Ond er hynny, rydym wedi parhau i gynyddu'r elw ar fuddsoddiad ac mae ein hymgyrchoedd wedi cynhyrchu cyfanswm o £12 miliwn – sy'n golygu ein bod wedi gwneud £15 am bob £1 a wariwyd gennym.

Dyma gamp y gallwn fod yn falch ohoni.

Uwchben: *O'r chwith, Giles Greenwood, Cyfarwyddwr Datblygu Twristiaeth Golff, IAGTO, Roger Lewis, Golff Cymru, Ginny James, Clwstwr yr Arfordir, Carole Startin, Golff Cymru, Claire Sanders, Golff Cymru, Rob James, perchennog Clwb Golff Old Padeswood, Bob King, BRS a Rob Holt, Prif Weithredwr Cwpan Ryder Cymru yn Fforwm Golff Gogledd Cymru*

Chwith: *O'r chwith, Fiona Gresty, Rheolwr Marchnata Twristiaeth Gogledd Cymru, yr arbenigwr teledu ar hen bethau Adam Partridge a Carole Startin, Swyddog Marchnata Gweithredol PTGC.*

Chwith pellaf: *Beicio mynydd yng Nghoed Llandegla.*

cynllun busnes

cyfleu ein cryfderau unigryw

Ailsefydlu Gogledd Cymru fel un o Bum Prif gyrchfan y DU i ymwelwyr yw ein nod.

Er mwyn cyflawni ein huchelgais mae angen i ni gyfleu ein cryfderau unigryw trwy negeseuon mwy taer ac ysbrydoledig.

Wrth wneud hynny, rydym wedi canolbwyntio ein gweithgarwch marchnata ar brif farchnad gwyliau teuluol yn y DU, gwyliau byr a gweithgareddau yn ogystal ag amryw o farchnadoedd arbenigol sydd â lle i dyfu.

Fel rhan o'r dull gweithredu newydd, gwnaed penderfyniad strategol i symud i ddefnyddio'r rhyngrwyd a chysylltiadau cyhoeddus, sy'n ffordd hynod o gost effeithiol o greu effaith gryfach.

Rydym wedi bod yn ystyried gostwng nifer y gwahanol ymgyrchoedd yng Ngogledd Cymru fel y gellir anfon neges gryfach i'n darpar gwsmeriaid.

Yr un rhesymeg sy'n sail i'n hadolygiad o nifer yr ardaloedd marchnata.

Ar hyn o bryd mae pump ohonynt ac yn ôl pob tebyg bydd yr ailwerthusiad yn arwain at ddwy neu dair o ardaloedd marchnata mwy dylanwadol a set o flaenoriaethau mwy pendant a chydgysylltiedig.

Mae gan Ogledd Cymru asedau naturiol cryf, rhai pwyntiau gwerthu unigryw a gall gynnig llawer iawn i'w weld a'i wneud mewn ardal ddaearyddol fechan.

Un o gryfderau traddodiadol y rhanbarth fu gwyliau teuluol ac mae'r hinsawdd economaidd anodd wedi creu cyfleoedd newydd i Ogledd Cymru.

Er ei fod yn nodwedd cymharol newydd, mae'r gair 'staycation' bellach wedi ennill ei blwyf fel rhan o'r eirfa dwristiaeth, gyda theuluoedd a phobl y mae eu plant wedi tyfu i fyny yn edrych ar eu patrymau gwyliau gan fod ganddynt lai o arian ac wrth i gostau tanwydd gynyddu.

Mae chwarter poblogaeth y DU yn byw o fewn taith ddwy awr o hoff gyrchfannau gwyliau, gwyliau byr a theithiau dydd y rhanbarth – felly rydym ar stepen y drws i filiynau o bobl o Ogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr, i bob pwrpas.

Simon Calder, yr arbenigwr teithio

Ymysg y marchnadoedd arbenigol sy'n cael eu targedu mae twristiaeth fusnes ac rydym wedi bod yn brysur yn ceisio denu mwy o gynadleddau, cyfarfodydd ac arddangosfeydd i'r rhanbarth.

Un o'r pethau sy'n ein gosod ar wahân fel lleoliad ar gyfer twristiaeth fusnes yw'r ased eithriadol sydd gennym o ran ein hawyr agored, yn ymestyn o Fôn i Eryri, ar hyd yr arfordir i fryniau Clwyd.

Mae gennym rywbeth gwahanol iawn i'w gynnig i lawer o'r canolfannau cynadledda traddodiadol mewn ardaloedd poblog a threfol yn y DU – neu dramor – a gwahanol iawn i lwydni bywyd trefol.

Ar ben hynny, rydym yn hygyrch iawn ac yn fforddiadwy iawn yng Ngogledd Cymru i fusnesau rhyngwladol a busnesau'r DU sydd am gynnal cynhadledd.

buddsoddi mewn cynnyrch rhagorol

Mae sicrhau ansawdd ein cynnyrch yn hollbwysig i iechyd, lles a dyfodol yr economi ymwelwyr yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol ein bod yn ysgogi buddsoddiad i gwrdd ag anghenion marchnad sy'n newid fel ein bod yn rhagori ar ddisgwyliadau ein cwsmeriaid – a rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n ategu ac yn atgyfnerthu ein cryfderau naturiol.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar dri phrif faes: llety o safon, atyniadau amrywiol a gweithgareddau rhagorol.

Fel rhan o'r ymgyrch hon, cyhoeddodd Croeso Cymru y bydd yn datblygu tair canolfan ragoriaeth i dwristiaeth yn y rhanbarth gyda'r nod o ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Creu canolbwynt i dwristiaeth gynaliadwy yw'r nod yn ymwneud â beicio yng Nghoed Llandegla, twristiaeth seiliedig ar weithgareddau yn Eryri a chanolfan ddehongli i ymwelwyr yn adeilad Henfaes yn Aberdaron.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint i ffrwyno potensial bryniau Clwyd i dwristiaeth mewn ffordd gynaliadwy sy'n sensitif i'w pwysigrwydd byd-eang fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae gan brosiect Datblygu Gwledig Sir y Fflint gymaint â 91 o fusnesau yn cymryd rhan ac yn manteisio ar fentora neu gefnogaeth ariannol i wella eu cynnyrch twristiaeth trwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol.

Mae datblygu'r cyfleuster angori llongau pleser yng Nghaergybi yn dal yn amcan pwysig ac rydym wedi cyfrannu at ariannu swydd cydgysylltydd mordeithiau yn y porthladd.

Mae rhai o'r llongau mwyaf yn cludo hyd at 3,000 o deithwyr sy'n dod i'r lan, ac yn ogystal ag ymweld â Môn, yn aml yn mentro ymhellach draw i Eryri neu i siopa yn Llandudno.

Mae'n bwysig felly ein bod yn cynyddu'r incwm fesul punt gan bob cwsmer trwy roi pob rheswm iddynt gael profiad gwych a gwario eu harian.

Yr angen i wella rhagoriaeth y cynnyrch yw'r rheswm ein bod wedi parhau i gefnogi Gwobrau Twristiaeth Môn, Gwobrau Busnes Gwynedd a Gwobrau Busnes Sir y Fflint.

Rydym wedi cyfrannu £25,000 i'r ymgyrch Cerdded Gogledd Cymru am ein bod yn credu bod hon yn farchnad sy'n cynnig potensial aruthrol.

Ymysg y mentrau diweddaraf mae Llwybr Pererinion Gogledd Cymru, llwybr troed 110 milltir ar draws y rhanbarth, o Ynys Enlli i Abaty Dinas Basing ym Maes-glas.

Ar yr un pryd, rydym yn manteisio ar dechnoleg ffonau symudol i ddarparu llyfrau tywys rhithwir hollbwysig i gerddwyr sy'n dilyn yr hyn a elwir yn e-lwybrau.

Mae gan Ogledd Cymru gymaint i'w gynnig i gerddwyr ac mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu â nhw ac yn darparu cynllun busnes cynaliadwy i ddatblygu cerdded fel gweithgaredd hamdden yn y dyfodol.

darparu profiad eithriadol

Rhaid i bobl gofio ymweld â Gogledd Cymru am yr holl resymau iawn.

Dim ond un cyfle a gawn i greu argraff gyntaf dda felly rydym yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y bobl sy'n dod yma'n cael profiad eithriadol.

Wrth wraidd ein hymdrechion mae Rheolaeth Cyrchfannau, fel y gallwn ennill y blaen ar yr holl gyrchfannau amrywiol sy'n cystadlu â ni.

Mae'r ffaith ein bod yn canolbwyntio ar Reolaeth Cyrchfannau yn bwysicach fyth gan fod dulliau cyfathrebu cymdeithasol mor hollbresennol ac uniongyrchol ac yn golygu y gall pobl roi neges gadarnhaol neu ddweud eu bod wedi cael profiad gwael yn gyflym iawn ac wrth nifer fawr o bobl.

Sefydlwyd Cyrchfan Conwy erbyn hyn ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn cynnwys y pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Creu "Profiad Ymwelwyr Rhagorol" yw'r nod fel bod pobl eisiau dychwelyd i Ogledd Cymru – a dweud wrth eu ffrindiau a'u teulu am ddod yma hefyd.

Mae rheoli cyrchfan yn ymwneud ag arfer da ac mae angen cydweithrediad rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn cyflwyno profiad o safon i ymwelwyr pan fyddant yma yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn gweithio'n galed yn awr gyda'r holl gyrff perthnasol i greu

rhwydwaith newydd fydd yn cynnwys Cyrchfan Conwy, Cyrchfan Wrecsam, Cyrchfan Sir y Fflint, Cyrchfan Sir Ddinbych, Cyrchfan Môn a Chyrchfan Gwynedd.

Mae hynny'n cynnwys popeth o gryfhau'r seilwaith trafnidiaeth ac arwyddion ffyrdd, cadw ein strydoedd yn lân, darparu synnwyr o le a llawer iawn mwy.

Rydym yn datblygu profiad lleol mwy cyfoethog drwy wneud mwy o ddigwyddiadau a gwyliau, a dangos ein celfyddydau, ein bwydydd a'n siopa a threftadaeth a diwylliant Cymru i'n hymwelwyr.

Un o'r syniadau sy'n cael ei archwilio yw'r syniad o Ymwelwyr yn Ad-dalu, a ddatblygwyd yn Cumbria.

Gofynnir i ymwelwyr gyfrannu swm bychan iawn a chaiff busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth eu hannog i ymuno â'r cynllun. Amlinellwyd llwyddiant y rhaglen yn Cumbria gan Gyfarwyddwr Partneriaeth Cumbria, Sue Savege mewn seminar a drefnwyd gan y Bartneriaeth Twristiaeth.

Agwedd bwysig ar brofiad ymwelwyr yw sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth o safon uchel felly rydym yn rhoi llawer iawn o ymdrech i hyfforddiant priodol i wella sgiliau'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth.

Rydym hefyd wedi cefnogi recriwtio 16 o bobl ifanc newydd adael ysgol mewn tri lle ledled Gogledd Cymru gyda golwg ar eu hyfforddi i ddod yn Llysgenhadon Lletygarwch.

Mae pobl yn disgwyl llawer mwy'r dyddiau yma nag erioed o'r blaen. Mae'r safon yn codi'n gyson ac mae'n hanfodol fod Gogledd Cymru'n aros ar y blaen.

gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth

Mae gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn amcan allweddol fel y gallwn ffrwyno egni'r sectorau cyhoeddus, preifat a nid-er-elw.

O ystyried y cyd-destun economaidd anodd, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn wyneb mwy o gystadlu am fusnes.

Rydym wedi cydweithio gyda'n partneriaid yn y pum partneriaeth ardal farchnata, cymdeithasau twristiaeth, rhaglenni datblygu gwledig, y chwe awdurdod lleol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'n cydweithwyr yn y fasnach trwy Dwristiaeth Gogledd Cymru.

Bellach mae gan ein gwefan randdeiliaid www.tpnw.org adran Bolisi, Strategaeth ac Ymchwil sy'n cynnwys dogfennau allweddol a gynhyrchwyd gan PTGC a phartneriaid allweddol eraill ar-lein.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein gweledigaeth ar y cyd, aethom ar daith ddysgu i'r Alban yng nghwmni'r arbenigwr byd-eang ar Reoli Cyrchfannau, Dr Terry Stevens. Ymysg llefydd eraill, fe wnaethom alw heibio Fort William, Lochaber, Loch Ness a Speyside.

Mae sicrhau gwell cydnabyddiaeth i werth yr economi ymwelwyr i wead ac economi Gogledd Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth.

Fe wnaethom barhau i gyfleu pwysigrwydd twristiaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel bod eu barn yn seiliedig ar wybodaeth gywir er mwyn gwella enw da'r diwydiant a'i gynrychioli'n briodol.

Sue Savege, Cyfarwyddwr Partneriaeth Cumbria

Cyfarwyddwyr Masnach

Neil Rowlands	Cadeirydd
Darryl Shaw	Is-gadeirydd
Anwen Jones	Cyffredinol
James Hewett	Mynyddoedd ac Arfordir Eryri
Andrew Baker	Cyffredinol
Nia Rhys Jones	Rhanbarth Arfordirol Gogledd Cymru

Cyfarwyddwyr Awdurdod Lleol

Cyng R H Wyn Williams	Cyngor Gwynedd / Is-gadeirydd
Cyng David Thomas	Cyngor Sir Ddinbych
Cyng Bob Parry OBE	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng Matt Wright	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Gail Hall	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Karen Whitney-Lang	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynghorwyr Masnach i'r Bwrdd

Sam Nayar	Cyrchfan Conwy
John Les Tomos	Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint

Mae fersiwn lawn o Adolygiad Blynyddol 2010-11 ar gael yn www.tpnw.org